**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I'R CWESTIYNAU GAN Y PWYLLGOR NEWID HINSAWDD, YR AMGYLCHEDD A SEILWAITH MEWN PERTHYNAS Â CHYLLIDEB DDRAFFT 2026-27 LLYWODRAETH CYMRU.**

---

## Rhaglen Cartrefi Clyd

Ym mis Ebrill 2024, gwnaethom lansio cynllun Nyth Cartrefi Clyd sy'n seiliedig ar alw, sef cam cyntaf ein Rhaglen Cartrefi Clyd. Lansiwyd Nyth fel cynllun 7 mlynedd gwerth £30m y flwyddyn i fynd i'r afael â thanwydd tlodi a hefyd gyfrannu'n ystyrlon at ein hymdrechion i ddatgarboneiddio'r sector adeiladau preswyl. O ystyried y newid mewn pwyslais yn yr iteriad newydd o Nyth, mae ymdrechion wedi canolbwyntio ar sicrhau ansawdd wrth gyflawni'r cynllun hwnnw cyn ystyried camau pellach, gan gynnwys cwmpasu mentrau sy'n seiliedig ar ardaloedd.
Rydym yn gweithio gyda chontractwyr Nyth i nodi ymyriadau sy'n seiliedig ar ardaloedd bach y gellir eu cyflawni o fewn cwmpas y contract, megis blociau o fflatiau neu strydoedd o dai teras. Mae nifer o brosiectau eraill ar raddfa fach wedi cael eu cyflawni mewn partneriaeth â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol. Mae swyddogion bellach wedi dechrau gwaith cwmpasu ar gynllun sy'n seiliedig ar ardaloedd mawr a byddant yn cyflwyno opsiynau i'r weinyddiaeth nesaf.

- **Beth yw'r cyfiawnhad dros gynnydd o 2% yn unig yn y gyllideb gyfalaf o ystyried canfyddiadau ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i dlodi tanwydd nad yw buddsoddiad yn y Rhaglen Cartrefi Cynnes "yn agos at" y lefel sydd ei hangen i gyrraedd targedau tlodi tanwydd?**

Mae cynnydd o 2% oherwydd chwyddiant yn cael ei gymhwyso at bob Prif Grŵp Gwariant sy'n adlewyrchu rhagolygon chwyddiant mis Mawrth y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer 2026-27. Mae hyn yn sicrhau bod pob rhan o Lywodraeth Cymru yn dechrau 2026-27 â'r un lefel o gyllid o leiaf mewn termau real â'r flwyddyn hon. Er y cydnabyddwn bryderon y Pwyllgor ynglŷn â thlodi tanwydd, mae'n rhaid i benderfyniadau ar fuddsoddiadau ychwanegol gael eu hystyried ochr yn ochr â blaenoriaethau croes a fforddiadwyedd cyffredinol o fewn y rhaglen gyfalaf ehangach. Mae'r cynnydd yn cael ei gymhwyso'n gyson at linellau pob cyllideb gyfalaf gyffredinol yn y Prif Grŵp Gwariant, yn unol â'r dull gweithredu y cytunwyd arno ar gyfer Cyllideb 2026-27.

Dim ond dechrau'r broses gyllidebol yw Cyllideb Ddrafft 2026-27 – nid y diwedd. Bydd llawer yn newid rhwng nawr a mis Ionawr pan fydd y Gyllideb Derfynol yn cael ei chyhoeddi. Er bod cynnydd o 2% oherwydd chwyddiant mewn cyllidebau cyfalaf cyffredinol yn y Gyllideb Ddrafft hon yn gadael cyllid heb ei ddyrannu, ein huchelgais ddisyfl yw sicrhau Cyllideb Derfynol sy'n defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael ar gyfer 2026-27 ac yn cefnogi gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen.

Nid cynllun Nyth Cartrefi Clyd yw'r unig ateb sydd ar gael yng Nghymru i fynd i'r afael â thanwydd tlodi drwy wella effeithlonrwydd ynni. Mae'n rhedeg ochr yn ochr â'r cynllun Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni, sy'n gweithredu ledled Prydain Fawr ac sy'n cael ei gyllido gan gyflenwyr ynni.

Rydym yn parhau i weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac yn hawlio cymaint o gyllid â phosibl i Gymru o gynlluniau ar gyfer Prydain Fawr gyfan ac yn sicrhau bod cymorth ar gael i'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Er enghraifft, mae cynllun hyblyg y Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni ar gael ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Bydd hyn yn sicrhau mynediad eang at y cynllun i aelwydydd ledled Cymru a bod deiliaid tai yng Nghymru yn cael eu cyfran deg o'r cyllid hwn.

- **Beth yw eich amcangyfrif o nifer yr aelwydydd y byddwch yn eu cefnogi drwy'r rhaglen yn 2026-27, a sut y mae hyn yn cymharu â blynyddoedd blaenorol?**

Bydd cynllun Nyth yn anelu at gefnogi'r targed blynyddol a nodir yn y ddogfen bolisi wreiddiol, sef 1500 o gartrefi, gan gydnabod bod y cynllun yn seiliedig ar alw. Mae rhywfaint o gyllid hefyd yn cael ei ddefnyddio i unioni problemau gyda deunydd inswleiddio waliau ceudod a osodwyd yn Arfon. Rydym yn disgwyl i'r cynnydd o 2% yn y gyllideb dalu am gostau uwch am lafur a deunyddiau.

Gwnaed penderfyniad ymwybodol i symud i ddull tŷ cyfan, a pholisi carbon isel yn gyntaf, pan wnaethom lansio'r iteriad hwn o gynllun Nyth. Rydym yn cydnabod bod costau'r dull gweithredu hwn yn uwch ac yn gweithio gyda'n contractwyr i geisio arbedion effeithlonrwydd lle bynnag y bo modd heb effeithio ar ansawdd ein darpariaeth.

Bydd y data llawn ar yr hyn a gyflawnwyd gan Nyth 2024-25 yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol, y byddwn yn anelu at ei gyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn.

Roedd y flwyddyn olaf o'r iteriad blaenorol o Nyth (2023-24) yn cefnogi 4,816 o aelwydydd o gyllideb o £39 miliwn, gan gynnwys dyraniadau atodol. Mae'r data hyn yn cynnwys rhai prosiectau a ddechreuodd yn 2023-24 ac a ddaeth i ben yn ystod 2024-25, ochr yn ochr â dechrau'r cynllun newydd.

- **Sut rydych yn gweithio gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol i gydbwyso'r angen i ddatgarboneiddio cartrefi drwy ôl-osod yn ddyfnach â'r angen brys i ymdrin â thlodi tanwydd?**

  Mae'r contract ag asiant cyflawni Nyth yn gofyn am leihau biliau ynni ac allyriadau carbon ar gyfer pob cartref unigol, a hefyd ar gyfer y cynllun yn ei gyfanrwydd. Argymhellir yr ymyriadau mwyaf costeffeithiol i sicrhau'r manteision deuol hyn.

  Un enghraifft o gydbwyso o'r fath yw ein cytundeb i osod boeleri modern hynod effeithlon yn lle boeleri nwy aneffeithlon o ran ynni lle nad yw pympiau gwres yn ateb addas. Mae hwn yn ymyriad cymharol isel ei gost, ond mae ei effeithiau o ran lleihau carbon a biliau yn sylweddol.

  Mae grŵp llywio cynllun Nyth ar lefel swyddogion yn cynnwys cynrychiolwyr o feysydd Cymunedau a Threchu Tlodi a Newid Hinsawdd. Mae'r grŵp yn monitro cynnydd ac yn cytuno ar unrhyw newidiadau sydd eu hangen i sicrhau canlyniadau deuol y cynllun.

- **A ydych chi'n dal yn fodlon â'r dull presennol o gynyddu'r cap cyllideb fesul aelwyd gan ddarparu ôl-osodiadau dyfnach i nifer is o aelwydydd nag yn y blynyddoedd blaenorol?**

  Mae'r cynllun Nyth newydd yn cwmpasu mesurau effeithlonrwydd ynni effeithlon a fydd yn ei gwneud yn bosibl i bobl wresogi eu cartrefi am gost is. Mae'r mesurau hyn hefyd yn cyd-fynd â thargedau datgarboneiddio Llywodraeth Cymru. Hyd yma, rydym yn hyderus nad ydym wedi gwario'n ormodol ar unrhyw eiddo, a bod ein hymyriadau wedi bod yn rhai costeffeithiol. Rydym yn anelu at gyhoeddi adroddiad blynyddol Nyth 2024-25 cyn diwedd y flwyddyn.

- **Pa effaith fydd gan y dull hwn ar gynnydd tuag at dargedau tlodi tanwydd a newid hinsawdd?**

  Mae cost ynni dipyn yn uwch na chostau cyn yr ymchwydd mewn prisiau a waethygwyd gan ryfel Rwsia yn Wcráin. Mae hyn wedi arwain at sefyllfa lle yr amcangyfrifir bod 25% o aelwydydd yng Nghymru yn byw mewn tlodi tanwydd o gymharu â 14% cyn yr ymchwydd mewn prisiau.

  Po uchaf fo lefel yr ymyriad effeithlonrwydd ynni drwy ôl-osod yn ddyfnach neu ddefnyddio technoleg fel paneli solar ffotofoltaidd, y mwyaf o arian a gaiff ei arbed ar filiau. Mae hyn yn sicrhau ein bod nid yn unig yn rhyddhau pobl o dlodi tanwydd ond yn eu diogelu rhag ysgytwadau ynni yn y dyfodol. Rydym yn gweithio gyda chydgysylltwyr ôl-osod Nyth er mwyn sicrhau bod y gyfres o ymyriadau a awgrymir ar gyfer pob cartref yn sicrhau manteision i'r deiliaid.

Mae'r gwaith modelu a wnaed wrth ddatblygu'r achos busnes yn amcangyfrif y dylai'r ffordd y mae cynllun Nyth yn gweithredu ar hyn o bryd leihau allyriadau carbon deuocsid o gyfanswm o 2.11 miliwn o dunelli dros oes yr asedau a osodir o dan y cynllun; y ffigur hwn yw cyfanswm yr arbedion o osodiadau dros gyfnod 7 mlynedd y cynllun. Bydd yr effaith fwyaf ar allyriadau o adeiladau preswyl yn dod o newid i wresogi carbon isel. Fodd bynnag, mae cost uned trydan yn golygu nad hwn yw'r ateb mwyaf priodol bob amser o safbwynt tlodi tanwydd. Yn yr achosion hyn, mabwysiedir dull gweithredu pragmataidd. Mae'r defnydd o foeleri nwy hynod effeithlon ochr yn ochr ag inswleiddio yn aml yn ateb costeffeithiol i leihau allyriadau a biliau ynni cymaint â phosibl yn y byrdymor i'r tymor canolig. Mae cynnwys systemau solar ffotofoltaidd lle maent yn briodol hefyd wedi galluogi aelwydydd i gynhyrchu eu hynni adnewyddadwy eu hunain, gan gyfrannu at ein diogeledd ynni a'u helpu i reoli eu biliau.

- **A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith i ddatblygu cynllun sy'n seiliedig ar ardaloedd fel rhan o'r rhaglen?**

  Mae swyddogion wrthi'n datblygu opsiynau ar gyfer datgarboneiddio o fewn ardaloedd daearyddol, fel dull sy'n ategu cynllun Nyth sy'n seiliedig ar alw. Mae ystyriaethau yn cynnwys dosbarthiad daearyddol tai aneffeithlon o ran ynni, atebion technoleg posibl ac effeithiau ar arbedion maint. Maent hefyd yn ystyried y niferoedd mawr o gynlluniau sy'n seiliedig ar ardaloedd sydd eisoes wedi'u cwblhau drwy Arbed, a gafodd gyllid gan yr UE nad yw ar gael inni mwyach. Bydd opsiynau ynglŷn â chynllun sy'n seiliedig ar ardaloedd yn y dyfodol yn cael eu cyflwyno i'r weinyddiaeth nesaf.

  Yn y cyfamser, rydym eisoes wedi cefnogi rhai cynlluniau ag anghenion technegol penodol. Er enghraifft, rydym yn cyllido gwaith ar un o ystadau Ffederasiwn Haearn a Dur Prydain yng Nghaerdydd.

  Mae ein Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio wedi rhoi cyllid i rai landlordiaid cymdeithasol gynnig ôl-osod yn seiliedig ar ardal lle mae niferoedd sylweddol o gartrefi cymdeithasol ochr yn ochr â thai mewn deiliadaethau eraill. Mae'r opsiwn hwn ar gael i unrhyw landlord cymdeithasol pan fyddant yn asesu cynlluniau posibl.

- **A allwch chi gadarnhau lefel unrhyw gyllid canlyniadol Barnett a gafwyd o ganlyniad i fuddsoddiad Llywodraeth y DU yn ei Chynllun Cartrefi Cynnes a sut mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn eich cyllideb?**

Nid yw Cynllun Cartrefi Cynnes wedi cael ei gyhoeddi eto, ac edrychwn ymlaen at weld y manylion o ran cyllid ar draws ymyriadau a'r rhaniad rhwng blynyddoedd ariannol bryd hynny.

- **Pa ystyriaeth a roddwyd i glustnodi unrhyw gyllid canlyniadol ar gyfer buddsoddiad yn y rhaglen hon?**

  Nid yw Llywodraeth Cymru yn clustnodi cyllid canlyniadol Barnett at yr un diben â'r rhaglen gan Lywodraeth y DU y mae'n deillio ohoni. Er bod newidiadau mewn cyllid yn Lloegr ar gyfer rhaglenni datganoledig yn arwain at addasiadau yn ein grant bloc drwy fformiwla Barnett, nid yw'r newidiadau hyn yn pennu sut y caiff y grant bloc ei wario. Mae penderfyniadau ar ddyrannu cyllideb Llywodraeth Cymru – sy'n cynnwys y grant bloc, trethi datganoledig, a benthyca cyfalaf – yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru gyda chymeradwyaeth y Senedd. Os bydd achos dros ddefnyddio cyllid canlyniadol at ddibenion tebyg, bydd Gweinidogion Cymru yn ei ddyrannu yn unol â'u blaenoriaethau fel rhan o'r broses gyllidebol briodol.

  Mae trechu tlodi tanwydd yn flaenoriaeth i'r llywodraeth hon a byddwn yn ystyried unrhyw gyllid canlyniadol yn ofalus yn y cyd-destun hwn, unwaith y bydd y manylion ar gael.

## Datgarboneiddio preswyl ac ansawdd

- **Faint o gyfanswm y cyllid cyfalaf sydd wedi'i ddyrannu i'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP) ar gyfer 2026-27?**

  Nid oes unrhyw benderfyniad wedi cael ei wneud eto. Byddaf yn ystyried cyngor gan swyddogion ac yn gwneud cyhoeddiad maes o law.

- **Sut mae'r ORP yn cael ei werthuso a sut mae hyn yn cael ei ddefnyddio i lywio opsiynau polisi cyn Cyllideb Carbon 3?**

  Rydym wedi comisiynu sefydliad ymchwil gymdeithasol i gynnal gwerthusiad ffurfiol o'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio. Mae hyn yn cynnwys ymchwil feintiol ac ansoddol. Mae'r ymchwilwyr yn cynnal dadansoddiad cost a budd o'r rhaglen ac asesiad o gostau a manteision gwahanol becynnau o ymyriadau a ariennir o dan y rhaglen. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, rydym hefyd wedi gwahodd landlordiaid cymdeithasol a'u tenantiaid i gymryd rhan mewn arolwg, cyfweliadau a grwpiau ffocws.

Byddwn yn defnyddio allbynnau'r ymchwil, y bwriadwn eu cyhoeddi yn 2026, i lywio polisïau yn y dyfodol i leihau allyriadau yn ystod Cyllideb Garbon 3 (2026-2030).

Rydym hefyd yn casglu astudiaethau achos i ddangos y manteision y gellir eu sicrhau drwy osodiadau arfer da yn ogystal ag enghreifftiau o brosiectau heriol a'r camau a gymerwyd i oresgyn anawsterau.

- **Faint o aelwydydd sydd wedi cael eu cefnogi gan gynllun Cartrefi Gwyrdd Cymru hyd yn hyn, beth yw gwerth cyfartalog y benthyciad a faint o aelwydydd ydych chi'n amcangyfrif y bydd y cynllun yn eu cefnogi yn 2026-27?**

  Mae cynllun peilot Cartrefi Gwyrdd Cymru yn cefnogi aelwydydd perchen-feddianwyr i wella effeithlonrwydd ynni a lleihau allyriadau carbon drwy gyllid fforddiadwy. Ers i geisiadau agor yn ystod hydref 2023, mae 723 o asesiadau ôl-osod wedi cael eu cwblhau, sy'n rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar aelwydydd i wneud penderfyniadau ynglŷn â buddsoddi. Mae 143 o asesiadau a 110 o geisiadau eraill yn mynd rhagddynt.

  Gwerth y benthyciad cyfartalog ar brosiectau hyd yma yw £15,386. Erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2025-26, rydym yn disgwyl y bydd tua 1,000 o asesiadau ôl-osod a 230 o brosiectau ôl-osod wedi'u cwblhau. Gyda'r cynnydd o 2% mewn cyllid a gynhwyswyd yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27, disgwylir lefelau cyflawni tebyg y flwyddyn nesaf.